

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CONWY I'W ARCHWILIO GAN Y CYHOEDD 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



## PAPUR CEFNDIR 2

### Amcanestyniadau Poblogaeth a Theuluoedd

Mawrth 2011

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar:  
[www.conwy.gov.uk/cdli](http://www.conwy.gov.uk/cdli). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac un swyddefeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575447. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweilthio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Tîm CDLI ar (01492) 575180/575181/575124.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575447.**

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
<b>Penawdau</b> .....	<b>4</b>
<b>1. Cefndir</b> .....	<b>6</b>
<b>2. Pam eu bod yn wahanol i'r amcanestyniadau sail 2006?</b> .....	<b>6</b>
Siart 2.1: cyfansoddion newidiadau poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy, o ganol blwyddyn i ganol blwyddyn.....	7
Tabl 2.1: cyfartaledd blynyddol ymfudo net ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy dros gyfnodau penodol o bum mlynedd.....	8
<b>3. Beth mae'r amcanestyniadau sail 2008 yn ei ddangos??</b> .....	<b>8</b>
Cymhariaeth efo amcanestyniadau sail 2006 .....	8
Tabl 3.1: amcanestyniadau yn seiliedig ar 2008 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (y diweddaraf). 8	
Tabl 3.2: amcanestyniadau yn seiliedig ar 2006 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (disodlwyd).....	9
Poblogaeth.....	9
Siart 3.1: strwythur poblogaeth 2008 .....	10
Siart 3.2: strwythur poblogaeth 2023 .....	11
Aelwydydd.....	12
Siart 3.3: cymharu mathau aelwydydd 2008 a 2023.....	12
Tabl 3.3: dadelfeniad o newidiadau aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2008-2023 .....	13
Anheddau.....	13
Tabl 3.4: Gofynion anheddau dangosol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2008-2023.....	13
<b>4. Problemau a chyfyngiadau efo defnyddio amcanestyniadau swyddogol</b> .....	<b>14</b>
<b>5 Manteision defnyddio amcanestyniadau</b> .....	<b>16</b>
Tabl 5.1: effeithiau posibl o'r newidiadau poblogaeth ac aelwydydd a ragwelir ar ddarparu gwasanaeth .....	17
<b>6. Casgliad</b> .....	<b>18</b>

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n dod gyda'r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig i'r Archwilio gan y Cyhoedd. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd, rhaid iddo esbonio sut mae'r polisi perthnasol wedi'i lunio yn seiliedig ar y dystiolaeth oedd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

Mae'r papur briffio hwn yn edrych ar amcanestyniadau is-genedlaethol poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2008 a gyhoeddwyd 2010 gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n eu cymharu efo hen ragamcanion, edrych ar y goblygiadau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Cyngor, ac yn darparu dadansoddiad o'r deunyddiau o'r amcanestyniadau. Cynhyrchwyd y papur gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## Penawdau

Mae'r prif ddeilliannau o'r amcanestyniadau hyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos, pe bai tueddiadau'r gorffennol yn parhau, rhwng 2008 a 2023:-

- bod amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol newydd wedi cael eu rhyddhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r amcanestyniadau yn dangos gwahaniaethau mawr rhwng y amcanestyniadau swyddogol a gynhyrchwyd ddwy flynedd yn ôl.
- rhagwelir bydd poblogaeth breswyl arferol Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynyddu gan bron i 5,000 rhwng 2008 a 2023. Mae hyn yn gyfradd twf o 4.4% - sy'n cyfateb i gynnydd o tua 0.3% bob blwyddyn.
- bydd y cynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth gyffredinol yn dod o fewnlifiad, gan byddai newidiadau naturiol (genedigaethau a marwolaethau) ar ben ei hun yn arwain at gwmp yn y cyfanswm.
- bydd y twf yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 65+. Bydd y nifer o bobl oedran gwaith a'r boblogaeth o dan 18 oed yn cwmpo.
- bydd niferoedd aelwydydd yn cynyddu ar raddfa fwy na'r boblogaeth, o ganlyniad i dueddiad cenedlaethol a ragwelir mewn aelwydydd o faint llai. Bydd y twf yn benodol ymysg aelwydydd ag un unigolyn a hynny yn y grwpiau oedran hŷn.

- mae effeithiau'r amcanestyniadau ar anheddau yn awgrymu bydd angen darparu tua 6,800 o aelwydydd ychwanegol rhwng 2008 a 2023. Mae hyn oddeutu 450 o anheddau ychwanegol bob blwyddyn.
- mae angen adolygu'r modd caiff amcanestyniadau eu cynhyrchu a'u hadolygu. Ni ddylid eu defnyddio fel targedau. Byddai cynhyrchu amcanestyniadau amrywiol yn seiliedig ar ymfudiadau yn rhoi darlun llawnach o'r tueddiadau posibl yn y dyfodol.

## 1. Cefndir

- 1.1 Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi set newydd o amcanestyniadau poblogaeth ar 27 Mai 2008 a set newydd o amcanestyniadau aelwydydd 29 Medi 2010, gan ddefnyddio 2008 fel blwyddyn sylfaen.
- 1.2 Mae'r rhain yn wahanol iawn i'r set flaenorol o amcanestyniadau a gynhyrchwyd gan WAG ddwy flynedd yn ôl, a ddefnyddiodd 2006 fel blwyddyn sylfaen.

## 2. Pam eu bod yn wahanol i'r amcanestyniadau sail 2006?


- 2.1 Mae cyfansymiau poblogaeth dros y cyfnod amcanestyniadau yn llawer is. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i ail-seilio amcanestyniadau poblogaeth, yn dilyn newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) i gyfrif ymfudiadau. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth newydd yn rhoi pwynt dechrau is ar gyfer y amcanestyniadau. Maent hefyd yn rhoi amcanestyniadau is i ffigyrau ymfudo ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 2.2 Canolbwyntiodd y newidiadau i'r fethodoleg amcanestyniadau poblogaeth/ ymfudo ONS ar fyfyrwyr ac ymfudwyr rhyngwladol.
  - Myfyrwyr - defnyddiwyd data o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch i ddarparu gwell cofnodion o symudiadau myfyrwyr ar ddechrau a diwedd addysg uwch. **Effaith yn BS Conwy:** cyfrif rhagamcanol is o breswylwyr yn y grŵp oedran 19-24, sydd wedyn yn cael effaith gronnus ar grŵp oedran 25-34 (rheiny sy'n aros ymaith ar ôl addysg uwch, am resymau gwaith, ffordd o fyw neu dai)
  - Ymfudo rhyngwladol - Mae'r arolwg teithwyr rhyngwladol wedi cael ei ymestyn. Gwneir yr arolwg hwn mewn porthladdoedd i fonitro symudiadau ymfudwyr rhyngwladol. Defnyddiwyd methodoleg well i ddadelfennu amcanestyniadau y nifer o ymfudwyr rhyngwladol i'w cyrchfan. Mae'r wybodaeth yma hefyd wedi cael ei gwella gan ddefnyddio cofnodion gweinyddol (o'r cynllun cofrestru gweithwyr, er enghraifft) i dracio ymfudwyr unwaith maent yn y sir. **Effaith yn BS Conwy:** mae ffigyrau net is, trwy ffigyrau ymfudo rhyngwladol yn gymharol fach beth bynnag. Mae'r newidiadau yn bennaf yn y grŵp oedran 19-24 (niferoedd is i mewn, niferoedd uwch allan),

ond mae yna hefyd niferoedd is o bobl mewn grwpiau oedran hŷn yn gadael y sir.

- 2.3 Effaith cyffredinol y newidiadau hyn ydi bod lefelau ymfudo net yn llawer is na ragamcanwyd yn flaenorol.
- 2.4 Ymfudo ydi cyfansawdd allweddol twf poblogaeth yn BS Conwy. Gan fod yna tua 500 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau yn y Fwrdeistref Sirol bob blwyddyn, byddai cyfansymiau poblogaeth yn dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn pe na fyddem yn cael mwy o fewnfudo nag allfudo.
- 2.5 Mae'r siart isod yn edrych yn fanylach ar gyfansoddion newidiadau poblogaeth o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Siart 2.1: cyfansoddion newidiadau poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy, o ganol blwyddyn i ganol blwyddyn**

Ffynhonnell: cyfansoddion ONS newidiadau poblogaeth ar gyfer amcangyfrifion poblogaeth canol blwyddyn



- 2.6 Tra bo tueddiadau genedigaethau a marwolaethau yn gymharol sefydlog ac yn hawdd i'w rhagweld, mae ymfudo yn gyfansawdd cyfnewidiol o newid poblogaeth, fel gellir gweld yn siart 2.1 uchod. Mae sawl ffactor yn effeithio ar ymfudo nad oes gennym unrhyw reolaeth drostynt ar lefel leol, fel polisi economaidd cenedlaethol neu dueddiadau cymdeithasol tuag at ymddeol dramor. Gall digwyddiadau na ragwelwyd neu unigryw hefyd gael effaith sylweddol ar ymfudo, fel y dylifiad o fudwyr economaidd o Ddwyrain Ewrop a welwyd ar ôl cytuno ar yr UE yn 2004.

- 2.7 Gan mwyaf, natur gyfnewidiol tueddiadau ymfudo sy'n cyfrif am y gwahaniaethau rhwng y amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2008 a'r rheiny a gynhyrchwyd yn flaenorol. Mae'r cyfnod tueddiad ymfudo 5 mlynedd a ddefnyddiwyd yn y amcanestyniadau mwyaf diweddar ac yn debygol o fod yn rhagamcan isel. Mae'n ystyried cyfnod o chwyddiant uchel mewn prisiau tai, a ostyngodd fewnfudo, a hefyd dechrau'r dirwasgiad, pan fo allfudo economaidd yn debygol o gynyddu. Y canlyniad ydi lefelau cymharol isel o fewnfudo net am y cyfnod.
- 2.8 Mae'r tabl isod yn dangos sut gall y cyfartaledd blynyddol o ymfudo net am gyfnodau penodol o bum mlynedd godi a gostwng.

**Tabl 2.1: cyfartaledd blynyddol ymfudo net ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy dros gyfnodau penodol o bum mlynedd**

Ffynhonnell: cyfansoddion ONS newidiadau poblogaeth ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth canol blwyddyn

	Annual average net migration
Mid 2003-mid 2008 – annual average (5 year)	600
Mid 2001-mid 2006 – annual average (5 year)	750
Mid 1999-mid 2004 – annual average (5 year)	1,100

- 2.9 Mae natur gyfnewidiol yr elfen ymfudo o newid poblogaeth yn amlygu cyfyngiadau defnyddio amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn unig heb ddata arall, neu ddefnyddio tueddiadau ymfudo am un cyfnod byr, penodol yn unig. Mae data ymfudo yn gyfansawdd allweddol o'r broses amcanestyniadau, ond gall y deilliannau o'r model amcanestyniadau amrywio'n helaeth, yn amodol ar y cyfnod tuedd a ddewisir.

### 3. Beth mae'r amcanestyniadau sail 2008 yn ei ddangos? *Cymhariaeth efo amcanestyniadau sail 2006*

**Tabl 3.1: amcanestyniadau yn seiliedig ar 2008 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (y diweddaraf)**

Ffynhonnell: amcanestyniadau is-genedlaethol poblogaeth ac aelwydydd yn sail 2008, LICC; effeithiau anheddau dangosol amcanestyniadau aelwydydd sail 2008, Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol CBS Conwy

	2008 (blwyddyn sylfaen)	2023	Newid 2008-2023		Cyfartaledd newid blynyddol	
			Nifer	%	Nifer	%
Poblogaeth	111,400	116,350	4,950	4.4%	330	0.3%
Aelwydydd	50,650	57,000	6,350	12.6%	420	0.8%
Anheddau (ffigwr dangosol)	-	-	6,800	12.6%	450	0.8%



### Tabl 3.2: amcanestyniadau yn seiliedig ar 2006 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (disodlwyd)

Ffynhonnell: amcanestyniadau is-genedlaethol poblogaeth ac aelwydydd sail 2006, LICC; effeithiau anheddau dangosol amcanestyniadau aelwydydd sail 2006, Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol CBS Conwy

	2008 (blwyddyn sylfaen +2)		Newid 2008-2023		Cyfartaledd newid blynyddol	
		2023	No.	%	No.	%
Poblogaeth	112,450	122,150	9,700	8.6%	650	0.6%
Aelwydydd	51,100	59,800	8,700	17.0%	580	1.1%
Anheddau (ffigwr dangosol)	-	-	9,300	17.0%	620	1.1%

- 3.1 Mae tabl 3.1 uchod yn dangos y newid dros 15 mlynedd am y set ddiweddaraf o ragamcanion. Mae tabl 3.2 yn rhoi data am ragamcanion yn seiliedig ar 2006 ac mae hefyd yn dangos newid dros 15 mlynedd.
- 3.2 Er bod y tablau am yr un cyfnod, ni ellir cymharu'r wybodaeth sylfaen dyddiad o ganlyniad i newidiadau i'r fethodoleg amcangyfrif poblogaeth (gweler adran 2 uchod). Fodd bynnag, gan fod y ddwy set o ddata yn edrych ar newid dros 15 mlynedd, gellir cymharu cyfraddau newid i roi arwydd o'r gwahaniaethau rhwng y ddwy set o ddata.
- 3.3 Mae cyfraddau twf yn llawer is am y set o ragamcanion diweddaraf.
- 3.4 Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddwy set ydi'r gyfradd twf a ragwelir ar gyfer y boblogaeth. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2008 yn llawer is o ganlyniad i ostyngiad sylweddol yn y tueddiad ymfudo net dros y pum mlynedd diwethaf.
- 3.5 Mae'r twf disgwylidig mewn niferoedd aelwydydd ac anheddau yn amcanestyniadau seiliedig ar 2008 hefyd yn is na ragamcanwyd o'r blaen. Fodd bynnag, fel mae'r tueddiadau tuag at faint aelwydydd cyfartalog llai yn parhau, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y amcanestyniadau yn seiliedig ar 2006 a 2008 wedi ei farcio gan ei fod ar gyfer poblogaeth.


### **Poblogaeth**

- 3.6 Mae'r pyramidiau poblogaeth ar y dudalen nesaf yn dangos sut rhagwelir bydd y strwythur poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn newid rhwng 2008 a 2023.

- 3.7 Rhagwelir bydd boblogaeth breswyl arferol Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynyddu gan bron 5,000 rhwng 2008 a 2023. Mae hyn yn gyfradd twf o 4.4% - sy'n cyfateb i gynnydd o tua 0.3% bob blwyddyn.
- 3.8 Mae'r pyramid poblogaeth presennol yn dangos yn glir bod gennym gyfran uchel iawn o'n poblogaeth yn y grwpiau oedran hŷn. Mae'r cwmp drammatig yn y boblogaeth yn oedran 18/19 yn adlewyrchu'r bobl ifanc sy'n allfudo o'r ardal i gael addysg uwch neu yn chwilio am waith/ cyfleoedd ffordd o fyw tu allan i'r ardal. Mae'r swmp 'coll' o'r boblogaeth yn y grŵp oedran 20'au a 30'au yn awgrymu nad yw'r bobl yma yn dychwelyd i'r ardal mewn niferoedd mawr. Mae'r sbigynnau amlwg iawn o gwmpas grwpiau oedran 60, 40 a 15 yn fabanod wedi'r rhyfel, eu plant a'u hwyrion a'u hwyresau.
- 3.9 Mae'r strwythur poblogaeth a ragwelir ar gyfer 2023 yn dangos cynydd sylweddol yn y grwpiau oedran hŷn (fel niferoedd absoliwt a hefyd fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth), gan fod y ddau fŵm babanod a'u plant yn hyn nag oed pensiwn. Mae'r nifer o bobl oedran gwaith wedi gostwng yn sylweddol.


### Siart 3.1: strwythur poblogaeth 2008

Ffynhonnell: amcangyfrifion poblogaeth canol blwyddyn 2008, ONS



### Siart 3.2: strwythur poblogaeth 2023


Fynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sail 2008, WAG



## Aelwydydd

### Siart 3.3: cymharu mathau aelwydydd 2008 a 2023

Ffynhonnell: amcanestyniadau aelwydydd sail 2008, LICC



- 3.10 Disgwylir i faint cyfartalog aelwydydd ostwng o 2.15 yn 2008 i 1.99 yn 2023. Mae hyn yn unol â thueddiadau yn y gorffennol.
- 3.11 Heb os y ffactor mwyaf sy'n effeithio ar y nifer aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn 2023 ydi'r twf a ddisgwylir yn y nifer o aelwydydd pobl sengl. Nid yw hyn yn dueddiad sy'n unigryw i Gonwy, ond mae ei effaith yn fwy amlwg yma oherwydd y nifer uchel o bobl hŷn yn ein poblogaeth.
- 3.12 Pensiynwyr yn byw ar ben eu hunain ydi'r mwyafrif o aelwydydd pobl sengl. Yn 2008 amcangyfrifwyd bod yna 10,000 o bensiynwyr yn byw ar ben eu hunain ym Mwrdeistref Sirol Conwy— roedd hyn yn cyfrif am 20% o'r holl aelwydydd, a 57% o'r holl aelwydydd pobl sengl.
- 3.13 Fel mae disgwyliadau hyd oes yn codi, gallwn ddisgwyl gweld y nifer o aelwydydd pensiynwyr sengl yn codi. Erbyn 2023 rhagwelir bydd yna dros 13,500 o aelwydydd pensiynwyr sengl yn y fwrdeistref Sirol, a bydd y rhain yn cyfrif am 24% o'r holl aelwydydd a 60% o'r holl aelwydydd pobl sengl.

- 3.14 Ffactorau eraill sydd wedi arwain at feintiau aelwydydd cyfartalog llai dros y degawdau diwethaf ydi'r tuedd tuag at feintiau teuluoedd llai a'r cynnydd mewn faint o deuluoedd sy'n chwalu. Disgwylir i'r tueddiadau hyn barhau.
- 3.15 Mae'r tabl isod yn crynhoi effeithiau'r newid mewn poblogaeth a'r gwahaniaethau mewn cyfraddau ffurfio aelwydydd ar y cyfanswm aelwydydd yn yr ardal.

**Tabl 3.3: dadelfeniad o newidiadau aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2008-2023**

Ffynhonnell: amcanestyniadau aelwydydd sail 2008, LICC

	Nifer	fel % o'r holl newid
Newid 2008-2023	6,350	
Wedi ei achosi gan newid yn y boblogaeth	4,050	63.9%
Wedi ei achosi gan newid yn ffurf aelwydydd	2,300	36.1%

## Anheddau

**Tabl 3.4: Gofynion anheddau dangosol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2008-2023**

Ffynhonnell: amcanestyniadau aelwydydd sail 2008, LICC; effeithiau anheddau dangosol amcanestyniadau aelwydydd sail 2008, Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol CBS Conwy

Newid 2008-2023		Newid blynyddol cyfartalog	
Nifer	%	Nifer	%
6,800	12.6%	450	0.8%

- 3.16 Rhwng 2008-2023 rhagwelir bydd angen tua 6,800 o anheddau newydd i gwrdd â'r twf o 6,350 mewn niferoedd aelwydydd. Mae hyn oddeutu 450 o anheddau ychwanegol bob blwyddyn. O'r rhain, byddai disgwyl i rwng 5 a 10 o'r rhain fod yn yr ardal o Barc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 3.17 Bydd angen darparu mwy o anheddau na sydd yna o aelwydydd er mwyn caniatáu ar gyfer corddi yn y farchnad dai. Wrth drosi rhagolygon aelwydydd i'r goblygiadau o ran anheddau, caniateir tua 6% ar gyfer anheddau gwag ac ail gartrefi/ cartrefi gwyliau. Mae hyn yn dilyn tueddiadau'r gorffennol.
- 3.18 Gan fod y farchnad dai yn farchnad agored, bydd yna alw am dai oddi wrth breswylwyr presennol a mewnfudwyr pe darperir anheddau ychwanegol ai peidio. Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn lleoliad dymunol, felly mae'n debygol byddai

cyflenwad annigonol o stoc tai yn gwthio prisiau tai i fyny, ac o bosibl yn eu gwneud allan o gyrraedd pobl leol.

- 3.19 Pe bai hyn yn digwydd, byddai pobl ifanc yn enwedig yn cael trafferth prynu (neu hyd yn oed rentu) tai yn yr ardal. Fel dangosir ym mhwynt 3.8 uchod, nid yw pobl ifanc yn dychwelyd i'r ardal ar ôl bod yn y coleg. Mae'r rhesymau pam yn gymhleth ac yn ymwneud â dewisiadau swyddi a ffordd o fyw yn ogystal â thai, ond rhain yw'r grŵp oedran a fyddai a'r lleiaf o allu i fforddio prisiau tai uchel, a heb ddarpariaeth tai fforddiadwy addas, nid yw'n debygol y buasent yn cael eu denu nôl i'r ardal.
- 3.20 Mae arwyddion a luniwyd gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol yn awgrymu, hyd yn oed pe nai bai yna unrhyw ymfudo i mewn neu allan o'r ardal, byddai'r twf disgwylidig mewn aelwydydd pobl sengl yn golygu byddai'r boblogaeth bresennol angen i dros 100 o anheddau ychwanegol gael eu darparu bob blwyddyn.
- 3.21 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn defnyddio'r ffigwr 15 mlynedd o 6,800 fel y prif ddangosydd ar gyfer y gofyniad am dai newydd dros y cyfnod 2008-2023. Mae'r CDLI hefyd yn darparu lefel wrth gefn uchel o +15% ar gyfer tai a chyflogaeth, a fyddai'n golygu bod angen 7,900 o gartrefi newydd dros y cyfnod. Gosodwyd ffigwr o 5,500 o anheddau newydd dros 15 mlynedd fel yr amrediad twf is ar gyfer y cyfnod, yn seiliedig ar effeithiau amrywiad twf isel rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cartrefi ac anheddau.

## **4. Problemau a chyfyngiadau efo defnyddio amcanestyniadau swyddogol**

### **4.1 Dim ond un dyfodol posibl ydi amcanestyniadau**

- 4.1.1 Maent yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol – dim ond cymryd yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol mae amcanestyniadau a dangos yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r tueddiadau hynny'n parhau. A phe bai'r cyfnod lle mesurir y tueddiad yn afreolaidd, efallai na fyddai'n rhoi darlun llawn.
- 4.1.2 Nid yw unrhyw elfennau polisi wedi eu cynnwys yn y amcanestyniadau, hyd yn oed os yw'r rhain yn hysbys.
- 4.1.3 Nid yw'r amcanestyniadau yn ddarlun cyflawn - bydd sawl ffactor na allwn eu rheoli neu nad ydym yn gwybod amdanynt yn effeithio deinameg poblogaeth; er

enghraifft, ni ellid rhagweld y dirwasgiad fyddol ddiweddar ac ymfudiad gweithwyr dwyrain Ewrop ar ôl cytuno ar y UE, er bod y ddau wedi cael effaith ar y llif poblogaeth. Gallwn hyd yn oed ddylanwadu ar y dyfodol gan ein penderfyniadau ein hunain. Gallai cymeradwyo datblygiad ar gyfer tir cyflogaeth ddenu gweithwyr a'u teuluoedd i'r ardal, er enghraifft.

4.1.4 Mae'n anodd iawn gwirio cywirdeb amcanestyniadau – does dim data ar gael ar gyfer y dyfodol.

## 4.2 Defnyddir amcanestyniadau fel targedau

4.2.1 Nid yw amcanestyniadau yn ddangosyddion perfformiad – yn syml, maent yn rhoi syniad o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol, o gael set penodol o amgylchiadau. Fodd bynnag, defnyddir amcanestyniadau yn aml – neu o leiaf edrychir arnynt – fel targedau, yn enwedig gwneuthurwyr polisi. Nid yw adrannau polisi WAG yn helpu hyn trwy ymddangos i'w cyflwyno fel a ganlyn.

## 4.3 Dim amcanestyniadau amrywiol

4.3.1 Nid yw set o ragamcanion yn seiliedig ar un cyfnod tueddiad-ymfudo yn unig yn rhoi darlun cyflawn. Mae cynhyrchu a hyrwyddo un rhagamcan 'swyddogol' yn rhoi'r argraff bod un ffigwr yn golygu un gwirionedd.

4.3.2 A phan nad yw un ffigwr yn cyd-fynd â disgwyliadau neu ofynion pobl ar gyfer y dyfodol maent yn dod yn amheus ohono, ac yn anghyfeillgar i'r 'dystiolaeth'.

4.3.3 Byddai ystod o ragamcanion amrywiol a gynhyrchwyd yn rhoi sylfaen dystiolaeth fwy cadarn, a helpu perswadio gwneuthurwyr polisi bod yna dueddiadau penodol mewn deinameg poblogaeth a chyfraddau ffurfio aelwydydd, ac mae angen edrych ar ganlyniadau hyn.

## 4.4 Caiff ffigyrau eu diweddarau yn fwy rheolaidd na pholisïau

4.4.1 Mae'r gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau 2006 a amcanestyniadau 2008 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn sylweddol. Mae'r anghysondeb hwn mewn data wedi aflonyddu ar y broses ffurfio polisi, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol.

4.4.2 Mae hon yn broblem newydd, gan nad oedd gennym ragamcanion is-genedlaethol a gyhoeddwyd yn swyddogol tan y cyhoeddwyd y amcanestyniadau yn seiliedig ar 2006. Rŵan, bydd y amcanestyniadau yn cael eu diweddarau bob dwy flynedd. Mae cyloedd polisi fel arfer yn hirach na hynny. Mae hyn yn peri peth cynnwrf bydd y cynlluniau yn hen cyn iddynt gael eu gorffen. Efallai mai dim ond problem setlo i mewn ydi hon tra'n bod yn dod i arfer â'r set data cymharol newydd/ sylfaen dystiolaeth - ond efallai ein bod angen ailfeddwl am sut rydym yn defnyddio'r math yma o dystiolaeth ystadegol yn ein prosesau llunio polisi, neu newid y broses i ffitio'n well gyda'r cyflymder y daw dystiolaeth ar gael.

## 5 Manteision defnyddio amcanestyniadau

- 5.1 Er nad ydynt yn rhoi darlun cyflawn a chywir am gyfansymiau a strwythurau poblogaethau'r dyfodol, mae amcanestyniadau yn rhoi arwydd o beth allai ddigwydd yn y blynyddoedd i ddod – nid o ran gofynion tai yn unig. Bydd strwythur poblogaeth a niferoedd aelwydydd y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol yn effeithio ar sawl ffactor a fydd yn ei dro yn effeithio ar ddarparu gwasanaeth, fel niferoedd disgyblion, anghenion gofal cymdeithasol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, faint o sbwriel a gynhyrchir a'r angen am dir cyflogaeth.
- 5.2 Rydym yn defnyddio amcanestyniadau gan ein bod angen blaengynllunio ein busnes a'n darpariaeth o wasanaeth. Pe baent yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth arall, ymchwil a ffynonellau data, maent yn rhoi arwydd o'r hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Gallwn wedyn gynllunio i ddelio â'r newidiadau a ragwelwyd, neu ffurfio strategaethau a fydd yn lliniaru eu heffaith (neu hyd yn oed newid y dyfodol).
- 5.3 Mae'r angen i flaengynllunio ein busnes fel cyngor mor bwysig fel bod yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol a'i ragflaenwyr wedi llunio eu amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ein hunain mewn blynyddoedd lle nad oedd unrhyw ragamcanion WAG.
- 5.6 Fodd bynnag, dim ond man cychwyn ydi amcanestyniadau wrth geisio deall y dyfodol, ac mae angen i ni adolygu'r broses amcanestyniadau yn rheolaidd gan fod tueddiadau'n newid.



5.7 Mae'r tabl isod yn dangos yn syml rhai effeithiau posibl o brif ragolygon WAG ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaeth. Mae'n canolbwyntio ar rai o'r defnyddiau rydym wedi ei wneud o ragamcanion WAG dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r ffigurau am newid rhwng 2008 a 2023 – y dyddiad gorffen bwriedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

**Tabl 5.1: effeithiau posibl o'r newidiadau poblogaeth ac aelwydydd a ragwelir ar ddarparu gwasanaeth**

Ffynonellau: amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, sail 2008, LICC

Dangosydd effaith	Cyfansymiau yn 2008	Newid/ effaith posibl 2008-2023
<b>Rhagamcan</b>		
Poblogaeth	111,400	+4,950
Aelwydydd (ffigwr dangosol – answyddogol)	50,650	+6,350
<b>Tai</b>		
Cyfanswm gofyniad anheddau	-	+6,800
Gofyniad anheddau blynyddol	-	460
Potensial darparu tai fforddiadwy	-	Isel
<b>Busnes a gwaith</b>		
Poblogaeth oedran gwaith (16-65)	65,600	-2,250
Incwm yn yr economi leol	-	Gostyngiad bychan
Effaith ar fusnes	-	Negyddol
Gofyniad tir cyflogaeth (newydd)	-	Gostyngiad
<b>Cludiant</b>		
Cynydd mewn lefel traffig (perthnasol)	-	Canolig
Effaith ar gymudo	-	Cyfyngedig
Cost bws ysgol fesul defnyddiwr	-	Uwch
Pasys bws	-	Llawer uwch
<b>Addysg</b>		
Oedran cyn ysgol (0-4)	5,600	-150
Oedran ysgol gynradd (5-10)	6,950	+100
Ysgol uwchradd/ llefydd AU (11-17)	9,750	-550
<b>Gwasanaethau cymdeithasol</b>		
85+ Oed (posibilrwydd o gefnogaeth ychwanegol)	3,800	+1,950
75-84 oed (posibilrwydd o gefnogaeth ychwanegol)	9,300	+3,200
Newidiadau yng nghyflogaeth sector 'gofal'	-	Llai o weithlu
Effaith posibl ar wasanaethau plant	-	Gostyngiad bychan
<b>Casglu sbwriel</b>		
Swm gwastraff domestig	-	+4%
Nifer o bwyntiau casglu domestig	-	+13%
<b>Treth y Cyngor</b>		
Newid yn y sylfaen dreth	-	Cynydd
Nifer o lwfansau anheddau pobl sengl		+5,150

5.8 Pwynt amlwg ydi'r gostyngiad a ragwelir ym mhoblogaeth oedran gweithio, a fydd yn effeithio ar economi'r ardal a photensial recriwtio'r Cyngor fel cyflogwr lleol; a'r cynnydd a ragwelir mewn pobl hŷn a fyddai efallai angen gofal cymdeithasol. Gyda'u gilydd, mae'r ddau ddangosydd o batrymau poblogaeth y dyfodol yn awgrymu gallai'r Cyngor wynebu mwy o alw ar ei wasanaethau gofal cartref, ond gyda chronfa lai o weithwyr i recriwtio ei weithwyr gofal.

## 6. Casgliad

6.1 Does dim data ar gael ynglŷn â'r dyfodol, felly bid yw amcanestyniadau a amcanestyniadau yn ddim mwy na dyfaliad – agwedd gadarn, wyddonol at gymryd y dyfaliad gorau, ond er hynny dal yn edrych ar belen hud. Mae hyn yn golygu bod amcanestyniadau yn ansicr, yn agored i'w croes holi, ac yn aml yn frawychus i'w trin, yn enwedig os nad ydynt yn rhagweld dyfodol nad ydym yn gyfforddus ag o. Fodd bynnag, nes bo rhywun yn creu peiriant amser i fynd â ni i weld beth sy'n digwydd yn 2023, bydd rhaid i ni ddibynnu ar ragamcanion fel y rhain, a gwneud y defnydd gorau ohonynt y gallwn i'n helpu i ragweld tueddiadau'r dyfodol ac anghenion y dyfodol.